

Taflen Ffeithiau

Cymorth argyfwng

Coed Pella,
Conway Road,
Bae Colwyn.
LL29 7AZ
0300 1240050



Beth gallwch ei wneud i helpu os ydw i'n cysgu allan?

Nid oes dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu llety dros dro bob tro, ond mae dyletswydd arnynt i ddarparu cyngor, cymorth ac asesiad o'ch anghenion i helpu i atal a/neu leddfu eich digartrefedd.

A oes unrhyw wasanaethau eraill sy'n gallu rhoi cyngor a chefnogaeth i mi?

Gall ein hasiantaethau partner (isod) gynnig ystod o gyngor a chefnogaeth i chi. Gallwch gael mynediad at y rhyngwyd yn eich llyfrgell leol neu yn Swyddfeydd Coed Pella i gysylltu.

Llochesi Mynediad Uniongyrchol

Mae Lloches Mynediad Uniongyrchol: **Tŷ Golau**, Adeiladau Clwyd, Clwyd Street, y Rhyl, LL18 3LA. ☎ 01745 345900. Mae angen i chi gyflwyno eich hun erbyn 6.45pm i geisio lloches. Mae galw am welyau felly ystyriwch gyrraedd yn gynnar. Er mwyn bod yn gymwys mae'n rhaid i chi fod yn ddigartref, yn 18+ oed ac yn meddu ar ryw fath o ID neu Rif Yswiriant Gwladol a bod gennych gysylltiad gyda Sir Ddinbych. Os oes llai o alw am welyau efallai y byddant yn eich ystyried heb gysylltiad lleol.

Mae hefyd **Tŷ Nos** – Lloches Nos Wrecsam, yn Hen Ganolfan Gymunedol Maes y Dre, Ffordd Holt, Wrecsam, ☎ 01978 291274 rhwng 8pm a 9am neu ☎ 01978 262 222 (ymholiadau yn ystod y dydd)



Protocol Brys Tywydd Difrifol (SWEP)

Yn ystod tywydd eithafol, mae darpariaeth ychwanegol o wasanaethau ar gael ar gyfer rhai heb lety. Cysylltwch â'r Tîm Ar Ddyletswydd Atal Digartrefedd ar ☎ 0300 1240050 neu galw i Swyddfeydd Coed Pella, Bae Colwyn rhwng 9.30am a 4.00pm. Gallwch hefyd gysylltu â Galw Gofal y tu allan i oriau swyddfa ar 0300 123 6688

Cefnogaeth Gymunedol ac Elusennau



Mae Menter Kind Bay yn grŵp cymunedol a sefydlwyd i ychwanegu caredigrwydd i Fae Colwyn a'r gymuned ehangach. Maen nhw'n darparu cyfarfod wythnosol i helpu i fynd i'r afael â digartrefedd, arwahaniad, unigrwydd ac iechyd meddwl gwael. Maen nhw'n darparu bwyd poeth am ddim, a dillad cynnes, adloniant a chefnogaeth. Bob dydd Sul rhwng 1pm a 3pm, mae cerddoriaeth fyw, gwasanaeth barbwr a gweithgareddau crefft unwaith y mis. Maen nhw hefyd yn darparu parseli bwyd mewn argyfwng pan fo'n bosibl.

Gall Kind Bay ddarparu cwpan a pheccynnau bach o ddiodydd neu gawl ar ffurf powdr i chi a byddant yn gweithio gyda chwmnïau lleol i ddarparu'r fenter 'Refill & Stir'. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw mynd â'ch cwpan i unrhyw un o'r lleoliadau hyn a byddant yn rhoi dŵr poeth i chi ychwanegu atynt:

Porters – Ffordd yr Orsaf	Corner Cupboard
Caffi – Canolfan Bayview	Siop Pysgod a Sglodion Galleon, Llandrillo-yn-Rhos
Station View – gwaelod Ivy Street	Mexican Wave - Llandrillo-yn-Rhos
MAUS - Penrhyn Road	Caffi CIP - Bae Colwyn
Bayview - Seaview Road	Rachel's Caffi yn Golwyn

📍 Eglwys Dewi Sant, Rhiw Road, Bae Colwyn



Cynhelir yr Hyb Cymunedol bob dydd Mawrth rhwng 10am a 12pm yn Eglwys Dewi Sant, Rhiw Road, Bae Colwyn, gan ddarparu canolfan i chi gael mynediad i wasanaethau fel; kaleidoscope, Tai, CAB, Adran Gwaith a Phensiynau, Lleihau Niwed, The Wallich, Nacro a mwy.



Gall Hope Restored gynnig ystod eang o gymorth a chyngor i wneud bywydau pobl ddiartref ychydig bach yn well. Mae Hope Restored hefyd yn darparu pryddau poeth a gall ddarparu cyllid ar gyfer arhosiad dros dro mewn llety gwely a brecwast lleol mewn argyfwng yn oystal â sachau cysgu ac ati pan fyddant ar gael.

☎ Brenda - 07564 991 789



Mae Banc Bwyd Conwy yn sefydliad gwirfoddol sy'n helpu i fwydo pobl sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol sydd mewn argyfwng a methu ffordio bwyd
✉ conwyfoodbank@gmail.com. Mae banciau bwyd yn Llanwrst a Bae Cinmel. Gellir archebu parseli bwyd trwy Hope Restored yn Llandudno hefyd: 07564 991 789. Nacro, neu Itica yn Abergele; ✉ info@ltaca.org.uk



Canolfan Adnoddau Cymunedol Tŷ Hapus

Maen nhw'n darparu cefnogaeth a hyfforddiant i helpu pobl oresgyn tloedi a dychwelyd i waith. Maen nhw hefyd yn Fanc Bwyd, yn rhedeg Clwb Swyddi, Clwb Ieuenctid, sesiynau Ffitrwydd, clwb gweithgareddau teuluoedd Iach, Radio Cymunedol, grŵp Gwau i Elusennau, a sesiynau bwyta'n Iach ar gyllideb.

📍 Ffordd Penrhyn, Llandudno

☎ 01492 878781

✉ info@tyhapus.com



Banc Bwyd Ardal Abergele

Mae Banc Bwyd Abergele yn darparu gwasanaeth i Abergele a'r gymuned ehangach. Mae cangen yn Eglwys Bae Cinmel sy'n darparu bwyd a chefnogaeth am dridiau mewn achosion brys i bobl leol sydd mewn argyfwng.

📍 Hesketh House, Bridge Street, Abergele

☎ 01745 826570

✉ info@abergeledistrict.foodbank.org.uk



Penfoodbank

Ystafell fwyta Eglwys St Paul, mynedfa ochr ar Celyn Street, Penmaenmawr. Bob dydd Mercher 2pm tan 3pm. Mae cyfleuster i gofrestru â'r banc bwyd



Banc Bwyd Llanfairfechan

llanfoodbank2018@gmail.com

Sit N Stew

Caffi Cymunedol Sit and Stew galw heibio – maen nhw'n darparu pryd poeth am ddim, cyfle i gwrdd pobl eraill, cael mynediad i gyngor a gwybodaeth – does dim angen archebu lle, galwch heibio

- Canolfan Dewi Sant Centre, Rhodfa'r De, Pensarn, bob dydd Llun rhwng 1pm a 2pm a
- Canolfan Ieuenctid, Ffordd Douglas, Bae Colwyn, bob dydd Mercher rhwng 1pm a 2pm.

Soup 'n' Sox

Mae fan **Soup and Sox** y tu allan i Gaffi Providaro 112 Mostyn Street, Llandudno bob nos Iau rhwng 7pm ac 8pm yna wrth Eglwys St Paul ar Woodlands Road rhwng 8pm a 9pm.



FoodShare Colwyn a Phensarn gyda HopeGiver.org.uk

Maen nhw'n helpu'r rhai sydd mewn tloidi bwyd yn ardal Bae Colwyn / Hen Golwyn a Phensarn, gan helpu'r rhai ar gyllidebau isel i brynu bwyd. Am dâl aelodaeth wythnosol o £3.50, byddant yn darparu bwyd gwerth hyd at £15, neu fwyd gwerth hyd at £10 am £2.50 neu fwyd gwerth hyd at £5 am £1.50 bob wythnos. Galwch heibio, cofrestru a chasglu eich bwyd bob wythnos. Mae'r Clwb FoodShare yn cael ei redeg mewn partneriaeth ag Eglwys Sure Hope ac mae'n seiliedig yno:

Eglwys Sure Hope, The Interchange, Ffordd Abergele, Hen Golwyn, Bae Colwyn, LL29 9YF

01492 514021



The Interchange, Ffordd Abergele, Hen Golwyn, Bae Colwyn, LL29 9YF

01492 514021

Mae Sure Hope yn cynnal Gwledd bob dydd Llun am 12 hanner dydd yn rhad ac am ddim. Galwch heibio'r Bean Bar a rhoi gwybod iddynt yr hoffech alw draw.





Maen nhw'n cynnal sesiwn FoodShare bob dydd Llun a dydd Mercher hefyd rhwng 1.15pm a 2.30pm. Gallwch gofrestru â'r Clwb FoodShare am dâl tansgrifio (ar gyfer pob wythnos rydych chi'n mynychu) o £1.50 - £3.50, a mynd â bwyd gwerth hyd at £15.00 adref gyda chi, yn dibynnu ar pa danysgrifiad rydych wedi'i ddewis.

Mae Clwb Swyddi ar gael – Galwch heibio a defnyddio'r oliniaduron i chwilio am swyddi, a help ar gael i'ch cefnogi chi a'ch helpu i ddiwybu'n CV.





Mae CYTUN (Eglwys Ynghyd yng Nghymru) Llandudno yn cynnig brechdanau amser cinio i'r rhai mewn angen bob dydd.

- | | |
|---|---------------------------|
|  Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan, Llandudno | Dydd Llun a dydd Iau |
|  Eglwys y Drindod, Llandudno | Dydd Mercher |
|  Pryd poeth yn Hope Restored, Llandudno | Dydd Mawrth a dydd Gwener |
|  Eglwys Babyddol 'Our Lady Star of the Sea', Llandudno | Dydd Sadwrn a dydd Sul |

npower Fuel Bank®

The npower Fuel Bank® was set up in April 2015 in collaboration with the Trussell Trust to address some of the key challenges facing prepayment customers.

Mae hwn yn gredyd a all gael ei ychwanegu at eich mesurydd rhagdaliad i'ch atal rhag datgysylltu eich hunain, neu orfod dewis rhwng bwyta neu wresogi. Gellir cael mynediad ato drwy CAB

HELP GYDAG EITEMAU'R AELWYD

Dodrefn am Ddim

Mae Canolfan Addysg Penmaenrhos wedi datblygu prosiect uwchgyrchu dodrefn.

Maen nhw'n cynnal gweithdai i addysgu/ymarfer sgiliau uwchgyrchu hefyd.

Byddan nhw'n gwerthu rhywfaint o ddodrefn ond yn cyfrannu am ddim i bobl/teuluoedd mewn angen hefyd. Cysylltwch â nhw'n uniongyrchol ar:

 www.facebook.com/idadthatentertainments

 07592 607115 a soniwch am 'Ddatrysiadau Tai Conwy'



Mae **Freecycle** yn eich galluogi i roi a chael pethau am ddim yn eich tref a'ch cymdogaeth. Mae'n golygu aildefnyddio a chadw pethau da allan o safleoedd tirlenwi. Mae aelodaeth am ddim.



Freegle Mae'r sefydliad hwn yn cynnig gwasanaeth rhad ac am ddim drwy'r Rhyngwrwd lle gall pobl gyfrannu pethau a gofyn am bethau a fyddai'n cael eu taflu fel arall.



Mae gan Crest safleoedd ym Mae Colwyn a Chyffordd Llandudno yn gwerthu nwyddau gwynion ail law ac wedi'u hadnewyddu.



Cyfryngau Cymdeithasol

<https://www.facebook.com/helpinghandsbb/>

Os byddwch yn teipio "Free" yn y bar chwilio ar Marketplace, bydd yn dangos manylion eitemau rhad ac am ddim yn yr ardal.

HELP ARALL SYDD AR GAEL



Prydau Ysgol Am Ddim yn Sir Conwy

Mae Prydau Ysgol am Ddim ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn cael un o nifer o fudd-daliadau. Ewch i'r wefan am fanylion:

www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Benefits-and-grants/Education-Benefits/Free-School-Meals-in-Conwy-County-Borough.aspx



Nod y **Grant Datblygu Disgyblion** (Mynediad) yw helpu pobl brynu gwisg ysgol a dillad chwaraeon, offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau'r ysgol, gan gynnwys dysgu yn yr awyr agored ac offer ar gyfer gweithgareddau o fewn y cwricwlwm. Mae'r grant ar gyfer disgyblion yn y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 3, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10 ar gael gan Gyngor Conwy ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid sydd â phlant yn mynd i ysgol yng Nghonwy ac sy'n derbyn un o nifer o fudd-daliadau. Ewch i'r wefan am fanylion:

www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Benefits-and-grants/Education-Benefits/School-Uniform-Grant-in-Conwy-County-Borough.aspx



Department
for Work &
Pensions

jobcentreplus

Mae canolfan waith Bae Colwyn yn cynnig budd-daliadau a gwasanaethau cynnal gan gynnwys; Paru â Swyddi Cyffredinol, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cymorth Cyflogaeth a Chredyd Cynhwysol.

☎ 0800 169 0190

📍 2 Princes Dr, Bae Colwyn, LL29 8PL

☎ 0845 6043719 🌐 www.jobcentreplus.gov.uk

📍 29-31 Chapel St, Llandudno, Conwy



Cyngor ar Bopeth

☎ 0344 477 2020


🌐 www.citizensadvice.org.uk

📍 Eryl Wen, Eryl Place, Llandudno, Conwy LL30 2TX



Mae Nacro yn darparu cartref i bobl ifanc ac oedolion difreintiedig, a'u haddysgu, cefnogi a'u cynghori. Mae croeso i bobl alw heibio neu mae Nacro yn hapus i drefnu apwyntiadau.

Fersiwn 3 – Ion 2020



☎ 01492 539940

📍 13 Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn, LL29 8HT

Amseroedd: Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am tan 4.45pm

Mae mynediad i apwyntiadau uniongyrchol ac i drefnu apwyntiadau i gleientiaid newydd hefyd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9.30am a 4.00pm



Mae Cymunedau am Waith a Mwy yn darparu help a chefnogaeth i unrhyw un 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghonwy i ganfod hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a gwaith. Maen nhw'n rhoi cefnogaeth gyda meithrin hyder, darparu cefnogaeth 1 i 1, help â CV/ceisiadau am swyddi, sgiliau cyfweiliad, Clybiau Swyddi wythnosol, Clwb TG, lleoliadau gwirfoddoli/gwaith a chyfrifiadau. I gael rhagor o wybodaeth:

☎ 01492 575578

Anfonwch neges destun 07711 567191

📧 cymunedauamwaith@conwy.gov.uk

🌐 www.conwy.gov.uk/cymunedauamwaith

neu galwch heibio am sgwrs yng Nghanolfan Ieuencid, Douglas Road, Bae Colwyn, LL29 7PE, ddydd Llun i ddydd Gwener, 9.30am-4pm.



Tîm Hawliau Lles Conwy

Llinell Gyngor Ddyddiol, dydd Llun i ddydd Iau, 9.00am i 5pm, a dydd Gwener 9.00am i 4.45pm. Rhoddir cyngor am fudd-daliadau ac apwyntiadau os oes angen.

☎ 01492 576605

Gwasanaeth Galw Heibio ar gyfer Cyngor Budd-daliadau bob dydd Llun, 9.30 - 12.00. Llawr Gwaelod, Coed Pella, Bae Colwyn, nid oes angen apwyntiad.

Shelter
Cymru

☎ 01792 469400

🌐 www.sheltercymru.org.uk

📍 Uned 5, Adeilad yr Orsaf, Stryd Bodfor, Y Rhyll LL18 1AT



🌐 www.homelessuk.org

Yn darparu gwybodaeth am dros 9,000 o wasanaethau – hostelau, canolfannau dydd, a gwasanaethau cyngor a chefnogaeth ar gyfer pobl ddigartref neu rai sy'n wynebu digartrefedd.



☎ 01792 410222 neu 020 7526 3200

Cyngor ac atgyfeiriadau ar gyfer tai, iechyd, annibyniaeth ariannol a dyheadau. Hefyd yn cynnig cyfle i bobl ddigartref a phobl ddi-amddiffyn mewn cartrefi i ennill incwm dilys.



☎ 0844 871 11 11

Darparu cefnogaeth i bobl ddi-amddiffyn ar draws y DU.





☎ **01792 813593** neu **020 7367 4865**

Cyngor a chefnogaeth, darparu gwasanaeth proffesiynol i ddiwallu anghenion pobl ddigartref (darparu cawl, clybiau brecwast, grwpiau cefnogaeth gyda'r nos ac ati).

SAMARITANS

Ar gael 24 awr y dydd, bob dydd o'r flwyddyn, yn darparu lle diogel i unrhyw un sy'n methu ymdopi.

☎ 116 123

🌐 www.samaritans.org er mwyn cael manylion y gangen agosaf neu e-bostiwch jo@samaritans.org